



Llun: Duncan Brown

Gwingwr y Greulys

gwyfyn newydd i'r Gymraeg

Tynnais hwn ar flodau llysiau'r gingroen wrth fynedfa Moelyci, Tregarth sh592678 ar y 7 Hydref 2012. Un o tua 12 o'r pryfed yw hwn ar yr un planhigyn DB.

Dyma'r *Nettle-tap* yn y Saesneg, *Anthophila fabriciana*, aelod o deulu'r *Choreutidae*, sef teulu'r GWINGWYR (Cyfres Enwau Creaduriad a Phlanhigion: cyfrol 3 Cymdeithas Edward Llwyd). Nid enwyd y rhywogaeth hon yn y gyfrol ond gan i Sterling a Parsons (2012) (Field Guide to the Micro Moths) wneud y sylw ei fod yn gyffredin ar llysiau'r gingroen neu'r creulys, cynigir yr enw GWINGWR Y GREULYS. Ei fwyd pennaf fel lindys yw danadl poethion, ond gan ei fod yn amlach i'w weld fel gwyfyn ar y blodyn, awgrymaf enw'r blodyn i'w adnabod. Gallai fod yn hawdd yn "wingwr y dynad fodd" bynnag ond oni fyddai'n rhaid cael fersiwn "gwingwr danadl poethion" i fodlonni'r gogleddwyr! Sylwadau?

HANES DRESEL Y TEULU - parhad

Dafydd Price

Fe gofiwch ym Mwletin Medi i mi olrhain hanes ein dresel ni fel teulu. Dresel a brynwyd tua 1938 gan fy nhad yn ardal Aberffraw neu Bodorgan ar Ynys Môn. Fe gofiwch i mi nodi fod rhyw ddiregelwch o gwmpas cornel chwith bwrdd y dresel; darn rhyw ddwy fodfedd wrth dair wedi'i dorri allan a'i gyfnewid gan ddarn cyffelyb estron o'r un faint. Rhoddwyd ar ddeall i fy nhad, flynyddoedd yn ddiweddarach, fod tristwch yn hanes y dresel. Bu'r teulu a fu'n berchnogion ar y dresel yn rhyw gyfnod yn ei hanes, golli naill ai blentyn newydd anedig neu blentyn ifanc iawn ac i ddarn o'r arch gael ei rhoi yn nhrysor mwyaf gwerthfawr y teulu; sef y dresel deuluol.

Parhaodd syndod fy stori gydag ymweliad ag Amgueddfa Dreftadaeth ar Ynys Barra (Ynysoedd Allanol yr Alban). Canfyddais yno ddresel ag ynddi yr un fath o doriad; yn wir, eto ar ochr chwith y dresel honno hefyd.

Yn dilyn cyfweiliad a wnes ar raglen foreol Nia, yr wythnos honno dan ofal John Hardy, fe dderbyniwyd sawl ymateb diddorol tu hwnt. Dyma restr o'r ymatebion a dderbyniodd Radio Cymru o ganlyniad i'r sgwrs. Nid oes unrhyw drefn benodol yma: 1. Cist (hen goffer). Prynwyd gan fam yr un a gysylltodd, yng Nghwmtudu, Sir Aberteifi oddeutu 1941. Darn wedi'i dorri allan a darn estron yn lle'r gwreiddiol. 2. Machynlleth – "sideboard" 5 drâr – pob un gyda darn estron ynddynt. Hen hen nain wedi goroesi 5 o'i phlant. 3. Llanbrynmair. Dodrefnyn â darn estron ynddo. 4. Trawsfynydd – dresel gyda dau ddarn estron yn y canol. 5. Corwen, Dodrefnyn a darn estron ynddo. 6. Penrhyndeudraeth, dresel a chwprdd tridarn (1712) gyda darnau estron ynddynt. 7. Atgof o ymweld â Dolwar Fach, ger Llanfyllin, a gweld rhywbeth tebyg mewn dodrefnyn yno. 8. Llanddaged. 9. Llanynys ger Rhuthun, Dresel 300 oed. Dau siâp wy. 10. Sir Fôn – dresel. 11. Stodin SELD, Eisteddfod Genedlaethol eleni – dresel ag ynddi ddau ddarn estron yn rhan fertigol, sef man arddangos y llestri. 12. Trawsfynydd, dresel 100+ oed 2 ddarn estron yng nghanol y bwrdd. 13. Sir Gaerfyrddin (Twrio) – darn allan o gwprdd 14. Canolbarth Cymru –

dresel 400 oed – cynnwys darnau o arch. 15. Ted Breeze Jones – prynu dresel tua 1976 o Borthmadog – toriadau bach yn y dresel. Y dresel yn wreiddiol o Fachynlleth. 16. Casgliad Dodrefn Parry – Arwerthiant Christie's Ebrill 1997, (Yn y rhain sonnir am yr arferiad "It has been suggested that this characteristic was a mark of respect for a loved one.": a. Un dresel o Ddyffryn Conwy, b. Cwprdd tridarn o Ogledd Cymru, c. Cwprdd wal, derw o Ogledd Cymru, Ch. Dresel o naill ai Swydd Caer neu Swydd Gaerhirfryn.

Rhestr lled faith sy'n arddangos patrwm o ymatebion yn bennaf o Ganolbarth neu Ogledd Cymru. Yn bendant mae digon o dystiolaeth yma i ddatgan bod yma draddodiad Cymreig o atgoffa neu gofnodi colled drwy gyfrwng nodi'r golled yng nghelficyn mwyaf gwerthfawr y teulu. Beth ddaeth i'r amlwg hefyd o siarad gyda rhai o'r bobl a fu mewn cysylltiad oedd nad hirsgwar oedd y siâp bob amser. Fe geid siâp wy, cylchoedd, sgwariau yn ogystal â darnau hirsgwar. Beth am y chwithigrwydd? Na, ni phrofwyd hyn o gwbl er bob ein dresel ni a dresel y Barra yn arddangos hynny. Fe gafwyd y darnau estron hwnt ac yma mewn celfi. Tebygir mai'r atgof oedd yn bwysig, ac fe'i lleolwyd mewn man o ddewis y teulu neu leoliad a fyddai'n arddangos cofeb briodol o gofio lleoliad y celficyn yng nghartref y teulu ar y pryd.

Beth am y traddodiad yn yr Alban? Hyd yma'r diregelwch yn parhau. Cefais ateb yn arddangos diddordeb mawr yn fy nghais am wybodaeth gan aelod o Scottish Heritage; ond dim gwybodaeth bellach. Awgrymwyd fy mod yn cysylltu ag adran arbennig ym Mhrifysgol Caeredin; ond hyd yn hyn heb dderbyn unrhyw sylw. Felly dyna'r stori. Yn ddi-os mae yma draddodiad Cymreig. O bosib roedd y traddodiad yn ymestyn i'r Alban. Ond nid oes datganiad o chwithigrwydd yn y gosodiad estron.

Nodyn golygyddol: Cymraeg yw unig iaith olygyddol prosiect Llên Natur. Fodd bynnag, derbynnir a chyflwynir cyfraniadau mewn unrhyw iaith, a cheisir derbyn pob cyfraniad yn yr iaith wreiddiol, yn ei gywair, ei sillafiad, ei atalnodi a'i ieithwedd fel y mae yn y gwreiddiol gan ei olygu ond yn ysgafn iawn.

Pigion o'r Papurau Bro

YSGYFARNOG O SIR FÔN - Rai misoedd yn ôl [yn niwedd yr 19g. o bosibl] cawsom anrheg amheuthyn, sef corff ysgyfarnog, y cig, croen, a'r esgyrn, wedi ei saethu yn Sir Fôn. Y cyfaill caredig a'n hanrhegodd ni oedd Mr Paynter, Cymro, ac un o weinyddion yr agerlongau sy'n teithio rhwng Efrog Newydd a Lerpwl. Cawsai ei chadw'n ofalus yn nhy isa yr agerlestr fel yr oedd yn gwneud dysgliad o flasusfwyd o'r fath a garem, erbyn cyrraedd Efrog Newydd. Ni chawsom ddim byd tebyg iddi ers rhyw dro yn Sir Aberteifi dros ugain mlynedd yn ôl. Mae'r croen hefyd mewn gwasanaeth, wedi ei wneud yn goler hardd; bydd yn amddiffyn diogel rhag oerfel y tywydd, pan yn ymweld a'n cyfeillion yn Sir Oneida, E. Newydd, yn nyfnderoedd y gaeaf.

[Colofn "Cyfaill", (ddiwedd y 19g. o bosib) yn Y Glorian (trwy law Wil Williams)]


Cenllysg Mehefin



"Newydd ddod ar draws y lluniau yma dynnais i fis Mehefin y llynedd (10 Mehefin 2011). Mi oedd Margiad a finna di cerdded draw am Lyn Eiddew Mawr ar ddiwrnod hynod o braf, ond tua diwedd y prawn dyma gythgiam o gymylau bygythiol yn hel tua'r de ac yna fel o'n i'n mynd am Ddolgella be welais i ond cawod o eira/cenllysg di cwmpo ar y llethrau uwchben Arthog".

Haf Meredydd

Lluniau difyr iawn yn dangos yn `union` sut mae cawodydd cenllysg yn gallu bod yn lleol iawn Gol.



Dyma'r siart synoptig ar gyfer y 10fed Mehefin.

A dyma gofnod o'r diwrnod cynt, yn y Tywyddiadur :

Sir Fflint 9 Mehefin 2011: Adroddiad tywydd Radio Wales p'nawn heddiw, bod yna genllysg wedi disgyn yn Sir Fflint Ifor Williams

Esgyrn eira Eryri

Daeth Chris Simpkins ar draws y cofnod hwn wrth bori trwy gopi 23rd June 1916 yr Holyhead Chronicle:

"The winter snowfall in Snowdonia has last week been the subject of investigations by the well known rain expert, Mr J Gethin Jones. It appears that the latest snow spot in England and Wales is a gully on Garnedd Llewelyn, within a quarter of a mile of the summit. The depth of this gully naturally lends itself to the collection of masses of snow owing to the exceedingly large area from where snow slides are gathered. It faces south-east and is deep enough to collect 50 feet of hardened snow, which is equal to four times the extent of fresh-fallen snow. During average winter weather the snow lasts in the gully until the beginning of June, or much longer than any other part of the Snowdonian range. Mr Gethin Jones, visiting the spot on Thursday, could see from a distance that the gully was still half full, and on examining the snow arrived at the conclusion that it will take another four weeks to thaw. This proves the severity of the weather in the highlands during the past winter."

Meddai Chris: *"Lucky lads to have winters like that! This spot is obviously the face above Ffynnon Llyffant, at 2,275 feet the highest named tarn in Wales, which lies in the small hanging valley at the head of Cwm Eigiau, and I certainly remember seeing a slab avalanche fracture line there sometime in April 1968, but whether it's still either a good spot for late snow or even if it offers a good ascent line I don't know. There was no reference to it in Rick Newcombe's 1974 Winter Climbs guide but it might be worth prospecting if we get a decent winter this year. There can't have been many folk like Gethin Jones wandering the high Carneddau during the middle of WW1, and it would be interesting to know what else this "well known rain expert" got up to in the hills."*

Unrhyw wybodaeth am y bonwr Jones, un o reolwyr cynnar Cwmni Aliwminiwm Dolgarrog yn ôl y son?



Chwarae Colbs

Un o stampiau tymhorol y Swyddfa Bost rhai blynyddoedd yn ôl.

"Mae'r plant wedi dechrau chwarae colbs (conkers) a'r siopau yn arddangos nwyddau Nadolig"

Les Larsen Eco'r Wyddfa Hydref 1982

Brain coesgoch?

Arfbais ar y wal ym Mrynddu, Llanfechell, Môn.




Dyma eitem ddiddorol iawn meddai Gwyn Ellis-Hughes. Ie, dyma ddangosiad o arfbais Y Teulu Hughes-Hunter o Blas Coch, ym Môn. Rwyf yn ddisgynnydd pell, fy hun o'r ochr Hughes o'r teulu yma. Diddorol gweld bod yr arlunydd wedi defnyddio, disgrifiad o'r arfbais gan 'Burks' ac yn anffodus rhoddwyd y disgrifiad anghywir o'r arfbais i'w argraffu! Y gwir dderyn a ddylid ei

ddefnyddio, yw'r gigfran (*raven*) ac nid y fran goesgoch (*sef chough*). Mae'n hawdd gwneud camgymeriad rhwng y ddau aderyn, gan mewn argraffiad du a gwyn, toes dim gwahaniaeth rhwng y ddau. Ac fe ddefnyddiodd Burk, llyfr blât, y diweddar Huw Hughes A.S. i lunio ei lyfr pwysig o arfbeisiau teuluoedd Prydain. Ac yn anffodus, mae'r camgymeriad gwreiddiol yn dal i droi fyny!

Ewch i Oriol Llên Natur i ddarllen esboniadau eraill am yr arfbais hwn.

Gwalchgwyfyn y taglys... eto!

Y mis diwethaf (Bwletin 56) cawsom adroddiad a llun o walch wyfyn y taglys yn mela ym mis Medi eleni yn ardal Barège yn ardal Midi-Pyrénées, de Ffrainc, gan Kara Stanford. Roedd yna hefyd adroddiad ym mhapur newydd The Times yn sôn am un yn Annan, ardal Galloway, de'r Alban yn esbonio mai gwyfyn prin o ogledd Affrica yw hwn sydd yn mudo yma yn yr hydref mewn rhai blynyddoedd. Prin, ac o Affrica - digon gwir ar y ddau gownt. Ond dim mor brin â hynny. Mae gennym gasgliad o gofnodion Cymreig o'r pryf trawiadol hwn yn Nhywyddiadur ac Oriol Llên Natur yn dyddio o 1983 (sef un cofnod, Plas Tan y Bwlch). Dyma fap ohonynt, a llun Tom Jones o'r pryf a dynnodd yn Golan



llun a chofnod Tom Jones

yn 2005. Blynyddoedd y cofnodion eraill oedd 1992 (1), 1999 (1), 2005 (1), 2008, 2009 (3), 2011 (1)

Pós mis Hydref

Yr ateb i'r pós y mis diwethaf (y planhigyn ar yr hen ddarn tar ceiniog) oedd "clustog Fair". Pam? Enw hwn yn Saesneg ydi thrift. Y neges mae'n debyg yw, daliwch eich gafael ar ei darnau tair ceiniog os ydych am fod yn ddarbodus (neu *thrifty*)

Mewnlifiad y sgrechod coch

Mae 'na fewnlifiad o Sgrechod Coed yn digwydd yn Lloegr ar hyn o bryd. Ar y cyfandir mae 'na niferoedd mawr iawn wedi bod yn symud yn Sgandinafia. Hefyd niferoedd anhygoel o ditwod wedi bod yn symud ar y cyfandir dros y bythefnos ddwytha.

Rhys Jones

Cofnod yn y Tywyddiadur:

October 1983 will go down in memory as the month of the jays..by 2 Oct it became clear that birds from overseas were reaching Britain (very grey backs).

17th 1000 reported at Lands End.

19th 3000 flying west in parties of 300 over Plymouth.

BTO News 129

Bird Track: The reporting rate for Jay routinely climbs at this time of year, as birds make regular foraging flights to collect and cache food for the winter. However the reporting rate for the first week of October was the highest ever recorded in BirdTrack, reaching 39 percent. On average, Jays



appear on 27 percent of complete lists during that week. High-flying birds and large numbers were noted in many unusual locations, primarily in south and southeast England. In Kent, for example, several flocks—including one of 34 birds—were seen coming in off the sea, and at least 668 passed over Hunstanton, Norfolk on 6 October. Such observations hint that some of the Jays being seen may be of continental origin. The picture is complicated by native birds dispersing from breeding areas in search of food, however, as the acorn crop seems to be very poor in some areas this year. Interestingly, the reporting rates for Wales and northwestern Britain for the same week are no higher than normal. (ond mi newidiodd hyn yn ddiweddarach yn ôl Kelvin Jones, Swyddog BTO Cymru. Gol)

Heth Fawr 1947

Ryw adeg iw gofio i deulu y llawr
Oedd adeg ofnadwy yr eira mawr.
Blwyddyn colledion ar y defaid ai hŵyn,
Roedd ffermwyr y wlad yn uchel eu cwyn.

Ai anffawd natur y fath aeafol nen
Ar gwanwyn du oer yn ei fantell wen.
Ni chlywyd yr un gân ond rhuad y gwynt
Safodd yr afon lle rhedai hi gynt.

Mae bugail yr Hafod yn wylo fan draw
Ar oen bach yn marw ar gledd ei law.
A llawer i deulu mynyddig a phell
Heb damaid o fwyd fel meudwy mewn cell....

Yn nyddiadur D.O. Jones, Ty Uchaf, Padog (gyda chaniatad y teulu a phapur bro yr Odyn)

Os am y gweddill ewch i Chwilio (<http://www.llenatur.com/cy/node/18>), dewisiwch Yr Hin, a rhowch y chwila'r heth yn y blwch....

Pastwn coch lindys

Cordyceps militaris



Dyma beth y darganfuwyd o dan y ffwng yn y pridd. Ar ôl ei olchi fedrwn weld o dan chwyddwydr taw lindys ydi o.

Bryan Jones, Llangamarch

Os na phriodolir unrhyw lun neu sylw i gyfrannwr yn y Bwletin, bydd y wybodaeth honno bron yn ddi-ffael yn bresennol yn un o gronfeydd priodol gwefan Llên Natur.

Buchod cwta

Yn yr Herald Cymraeg yr wythnos hon [diwedd Awst 2012], mae gan Elizabeth Jones o Bentrecelyn, Rhuthun rigwm Cymraeg am y fuwch goch gota.

“Buwch goch gota
Pa un ai glaw neu hindda?
Os mai glaw cwmp, cwmp i'r baw
Os mai teg, hedfana.

Trwy law Bethan Wyn Jones

Mae'r enwau Cymraeg ar y buchod cwta wedi cael eu cyhoeddi. Dyma un ohonynt:

Y fuwch oren gota
Halyzia sedecimguttata.
Wedi'i chofnodi yng
Ngwarchodfa Natur
Genedlaethol Coedydd
Maentwrog,

Llun a sylw: Paul Williams

Meddai John Bratton:
They have been around
through the winter
(2009-10).



Tân yn Llanfair Caereinion.

21 Awst 1758

...tan yn Llanfair Caereinion. Digwyddodd hwn ar Ddydd Llun Awst 21, 1758. Ymddangosodd adroddiad ar y digwyddiad yn y London Chronicle ar Fedi 9-12 1758.. Mae W.T.R. Pryce yn sôn am y digwyddiad yn ei lyfr Samuel Roberts, Clock Maker. Mae'r gwynt mawr yn cael ei grybwyll. Wrth gwrs efallai mai'r gwynt achosodd hyn.

John Arwel

Gwynt aie? Dyma beth ddywedodd un arall ar y pryd...
Brynddu, Llanfechell 1758: "as a result of dry conditions in early summer, [the hay] was "very thin and short" and the hay making weather was not particularly favourable".

Dyddiadur William Bulkeley, Llanfechell, Môn

Mae'n wir bosibl felly mae tywydd gwresog sych oedd wrth wraidd y digwyddiad hwn (Gol.)

Geifr ar y Rhinogydd yn ystod 70au'r hen ganrif.



Dyma englyn gan Ceiriog i'r afr na ddylid ei adrodd yn uchel os oes gennyh chi ddannedd gosod:

YR AFR

Ar grugroen yr hagr grogrraig – a llamsach
Hyd hell lemserth lethrgraig,
Ochrau neu grib uchran y graig,
Grothawg-grib ar greithiog-graig.

Berwyn Prys-Jones trwy law Galwad Cynnar BBC Radio Cymru

Ffynnon Baglan



Dyma fel yr oedd Ffynnon Baglan rai blynyddoedd yn ôl. Yn anffodus, mae'r ffermwr wedi ei thynnu oddi yna'n gyfangwbl heddiw. Fe gyfeirid ati fel Ffynnon Binnau:
SH 46014 60847
Llun a sylw: Ifor Williams

Dyma ddyfyniad ddaeth trwy law Gareth Pritchard, Llandudno:

'On the subject of pin-wells, I had in 1893, from Mr. T. E. Morris, of Portmadoc, some account of Ffynnon Faglan, or Baglan's Well, in the parish of Llanfaglan, near Camarvon. The well is situated in an open field to the right of the road leading towards the church, and close to it. The church and churchyard form an enclosure in the middle of the same field.... My friend derived information from Mrs. Roberts, of Cefn y Coed, near Camarvon, as follows:--' The old people who would be likely to know anything about Ffynnon Faglan have all died. The two oldest inhabitants, who have always lived in this parish of Llanfaglan, remember the well being used for healing purposes. One told me his mother used to take him to it, when he was a child, for sore eyes, bathe them with the water, and then drop in a pin. The other man, when he was young, bathed in it for rheumatism; and until quite lately people used to fetch away the water for medicinal purposes. The latter, who lives near the well, at Tan y Graig, said that he remembered it being cleaned out about fifty years ago, when two basinfuls of pins were taken out, but no coin of any kind. The pins were all bent, and I conclude the intention was to exorcise the evil spirit supposed to afflict the person who dropped them in, or, as the Welsh say, dadwitsio. No doubt some ominous words were also used. The well is at present nearly dry, the field where it lies having been drained some years ago, and the water in consequence withdrawn from it. It was much used for the cure of warts. The wart was washed, then pricked with a pin, which, after being bent, was thrown into the well.

Allan o'r gyfrol 'The Folklore of the Wells' pennod 6.

Nid oes yna ddeddfu yn erbyn chwalu rhai o'n henebion!

Blwyddyn sobor am yr eirin tagu

Dyma Edith Holden (The Country Diary of an Edwardian Lady" am y flwyddyn 1905 (6ed Hydref) yn Solihull:

I have been out to search for Sloes. The bushes were covered with blossom in the spring, but I cannot find a trace of fruit anywhere...Is this due to the late frosts we had in May, that prevented the fruit setting

Dyma ddywedodd Edith ym mis Mai y flwyddyn honno yn ardal Dartmoor

29 Mai 1905: *Saw a Painted Lady Butterfly... This month has been one of the driest Mays I ever remember. We have only had one wet day and one or two showers during the whole of it.*

Cawsom ninnau gyfnod braf iawn yn ail hanner Mai ynghanol y flwyddyn wleib hon. Bu'n law di-baid ym mis Ebrill pan oedd y drain duon yn eu blodau, a diffyg cyfle felly i beillwyr wneud eu gwaith